



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Canllaw i gyflogwyr ar broses atgyfeirio, ymchwilio a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Canllaw i gyflogwyr ar broses atgyfeirio, ymchwilio a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r canllaw hon i gyflogwyr gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n rhoi gwybodaeth am:

- archwiliadau dylech chi eu cynnal cyn cyflogi gweithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol sy'n gorfod cofrestru gyda ni
- pryd i atgyfeirio gweithiwr atom ni
- ein proses ymchwilio a'ch rôl yn y broses
- proses ein gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a'ch rôl ynddi
- hyd achosion
- gweithio gyda ni a darparu gwybodaeth/tystiolaeth i ni
- cysylltu â ni.

Archwiliadau dylech chi eu cynnal cyn cyflogi gweithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol sy'n gorfod cofrestru gyda ni

Cyn i chi gyflogi gweithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol, dylech archwilio'n Cofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol. Bydd yn cadarnhau manylion adnabod gweithiwr a'i allu i weithio yn y rôl mae'r gweithiwr wedi gwneud cais amdani.

Bydd archwilio'r Gofrestr yn rhoi'r canlynol i chi:

- ei enw presennol
- ei rif cofrestru
- ei ddyddiad cofrestru
- y wlad lle y caiff ei gyflogi ar hyn o bryd
- cadarnhad o'r rhan o'r Gofrestr y mae'r gweithiwr wedi'i gofrestru ar ei chyfer
- cadarnhad ei fod yn gymwys i'r rôl y mae wedi cofrestru ar ei chyfer
- gwybodaeth ynghylch p'un a fu neu p'un a yw'n destun achos addasrwydd i ymarfer gennym, gan gynnwys:
 - p'un a ydym wedi gosod unrhyw gyfyngiadau ar ei gofrestriad, er enghraifft, amodau a osodwyd ar ei statws cofrestru
 - p'un a yw wedi'i atal o'r Gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys atal dros dro tra'r ydym ni'n ymchwilio i honiadau am ei addasrwydd i ymarfer.

Hefyd, rydym yn rhoi tystiolaeth electronig o gofrestru i unigolion cofrestredig ac mae'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- enw presennol
- rhif cofrestru
- dyddiad cofrestru



- rôl gofrestredig.

Pryd i atgyfeirio gweithiwr atom ni

Fel cyflogwr, mae gennych ran allweddol i'w chwarae yn asesu a delio ag unrhyw honiad(au) am addasrwydd gweithiwr i ymarfer i ddechrau.

Dylech atgyfeirio'ch gweithiwr atom ni ar ddechrau eich prosesau:

- os yw eich gweithiwr wedi'i atal neu ei ddiswyddo
- os yw eich gweithiwr wedi ymddiswyddo neu wedi gadael cyn i chi allu cwblhau eich proses, a fyddai wedi arwain at ddiswyddo
- os yw'r gweithiwr yn destun ymchwiliad diogelu neu ymchwiliad gan yr heddlu.

Dylech roi gwybod i ni tra bydd y prosesau hyn yn mynd rhagddynt, rhoi gwybod i ni pan fyddant wedi dod i ben a rhoi tystiolaeth ategol berthnasol i ni.

Fel arall, os oes problemau addasrwydd i ymarfer, rhowch wybod i ni ar ddiwedd eich proses ddisgyblu neu allu, a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol i ni.

Dyma enghreifftiau o'r mathau o faterion **nad oes** angen eu hatgyfeirio atom ni:

- materion cyflogaeth yn gysylltiedig ag absenoldeb blynyddol, hwyrni neu absenoldeb oherwydd salwch
- lle'r ydych wedi cyflwyno llythyr o bryder ond ni roddwyd cosb ddisgyblaethol
- pryderon nad ymchwiliwyd ymhellach iddynt, yn dilyn ystyriaeth gychwynnol.

O dan rai amgylchiadau, dylech atgyfeirio'ch gweithiwr yn uniongyrchol atom, beth bynnag fo'ch gweithdrefnau ymchwilio mewnol eich hun, er enghraifft:

- os gosodwyd yr unigolyn ar restr waharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- os cafwyd y gweithiwr yn euog o drosedd.

Gallwch atgyfeirio gweithiwr atom trwy lenwi'n ffurflen atgyfeirio ar:

gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/cyflwyno-pryder-am-addasrwydd-i-ymarfer-ffurflen-i-gyflogwyr a'i hanfon atom drwy'r e-bost neu'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cytundebau Cyfaddawdu

Pan fo dyletswydd i atgyfeirio gweithiwr atom, dylech wneud hynny hyd yn oed os oes cytundeb cyfaddawdu wedi'i lofnodi. Nid oes angen unrhyw fanylion ariannol arnom, ond mae arnom angen gwybod y rhesymau dros y cytundeb cyfaddawdu.



Wrth ysgrifennu'r cytundeb, dylech ei gwneud yn glir nad yw unrhyw gymal cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth a drosglwyddir i Ofal Cymdeithasol Cymru. O dan Adran 160 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gallwn wneud cais am orchymyn llys i gael y wybodaeth hon.

Ein proses ymchwilio a'ch rôl chi yn y broses

Pan fyddwch yn atgyfeirio gweithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol cofrestredig atom, bydd ein tîm addaswydd i ymarfer yn cynnal asesiad i benderfynu p'un a yw'r wybodaeth yn briodol i ni ei hystyried a ph'un a oes amhariad neu a allai fod amhariad ar addaswydd yr unigolyn i ymarfer.

Os penderfynwn nad yw'r honiad yn briodol i ni ei ystyried, ni fyddwn yn gweithredu ymhellach ond byddwn yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig ein bod wedi cael y wybodaeth.

Mae pob atgyfeiriad yr ydym yn ymchwilio iddo yn cael ei gyflwyno i gynhadledd achos cychwynnol i benderfynu ar lefel y risg a'r cam gweithredu. Byddwn yn gwneud hyn o fewn 14 diwrnod o gael y wybodaeth.

Byddwn yn ystyried p'un a oes amhariad neu a allai fod amhariad ar addaswydd yr unigolyn i ymarfer ar sail un neu ragor o'r canlynol:

- ymarfer gwael neu berfformiad diffygiol
- camymddwyn difrifol, boed fel unigolyn cofrestredig neu fel arall
- mae'r unigolyn wedi'i gynnwys ar restr waharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- penderfyniad gan gorff arall, fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, bod amhariad ar addaswydd yr unigolyn i ymarfer
- iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael
- collfarn neu rybudd yn y Deyrnas Unedig am drosedd, neu gollfarn rhywle arall am dramgwydd a fyddai, pe byddai wedi'i chyflawni yng Nghymru a Lloegr, yn cael ei hystyried yn drosedd.

Gellid ystyried bod amhariad ar addaswydd gweithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol cofrestredig i ymarfer o dan yr amgylchiadau canlynol:

- p'un a oedd ar y Gofrestr pan ddigwyddodd y mater, ai peidio
- p'un a oedd y mater wedi digwydd yng Nghymru neu'r tu allan i Gymru
- p'un a oedd y mater wedi digwydd yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith.

Pan fyddwn yn ymchwilio i atgyfeiriadau, byddwn yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig ac yn rhoi'r cyfle iddo ymateb. Hefyd, gallem gysylltu â chi i gael gwybodaeth ychwanegol. Byddwn yn penodi swyddog o'r tîm addaswydd i ymarfer i'r achos a'r swyddog hwn fydd eich pwynt cyswllt trwy gydol yr ymchwiliad.



Ar ôl i ni gynnal yr ymholiadau hyn, byddwn yn pwysu a mesur y wybodaeth ac yn asesu lefel y risg er mwyn penderfynu p'un a oes posibilrwydd go iawn o ganfyddiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer. Yna, byddwn yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- cau'r achos – er enghraifft, pan ystyriwn eich bod chi wedi ymdrin yn ddigonol â'r mater
- mae angen ymchwilio ymhellach – er enghraifft, pan ystyriwn nad oes digon o wybodaeth/tystiolaeth ar gael i allu gwneud penderfyniad ar y ffordd y byddwn yn bwrw ymlaen â'r achos
- trosglwyddo'r achos i banel gorchmynion dros dro, naill ai i atal yr unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr neu osod amodau ar ei gofrestrriad tra bydd ein hymchwiliad yn mynd rhagddo
- trosglwyddo'r achos yn uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer – er enghraifft, os bydd yr unigolyn cofrestredig wedi cael rhybudd neu wedi'i gael yn euog o drosedd gan lys yn y DU neu rywle arall ac y rhoddwyd neu gellid bod wedi rhoi dedfryd o garchar.

Pan fyddwn yn penderfynu bod angen ymchwilio ymhellach, gallem gysylltu â chi eto i gael rhagor o wybodaeth a/neu tystiolaeth.

Ar ddiwedd y broses hon, gallwn wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- peidio â gweithredu ymhellach – er enghraifft, pan ystyriwn eich bod wedi ymdrin yn ddigonol â'r mater
- rhoi cyngor
- cynnig rhybudd sy'n amrywio o chwe mis i dair blynedd
- cynnig ymgymeriad, er enghraifft, dylai'r unigolyn cofrestredig hwnnw gwblhau hyfforddiant penodol o fewn cyfnod amser penodedig – mae ar ymgymeriadau angen cytundeb yr unigolyn cofrestredig
- dileu'r unigolyn cofrestredig, gyda'i gytundeb, o'r Gofrestr trwy'r broses dileu trwy gytundeb
- atgyfeirio'r mater at banel gorchmynion dros dro naill ai i atal yr unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr dros dro, neu osod amodau ar ei gofrestrriad, tra bydd ein hymchwiliad yn mynd rhagddo
- atgyfeirio'r mater at banel addasrwydd i ymarfer.

Proses ein gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a'ch rôl chi ynddi

Yn dilyn ein hymchwiliad i'ch atgyfeiriad, byddwn yn cyfeirio unigolyn cofrestredig at banel addasrwydd i ymarfer:

- pan fyddwn yn fodlon bod posibilrwydd gwirioneddol y bydd y panel yn canfod amhariad ar addasrwydd yr unigolyn i ymarfer
- pan fydd gwneud hynny er budd y cyhoedd.



Yn dibynnu ar natur yr achos a materion yr ydym ni a'r unigolyn cofrestredig wedi cytuno arnynt, gall panel addasrwydd i ymarfer ystyried seiliau'r amhariad ar addasrwydd i ymarfer naill ai mewn gwrاندawiad cyhoeddus, neu mewn cyfarfod lle na fydd y naill barti na'r llall yn bresennol. Bydd y canlyniad ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gwrاندawiad, gallem gysylltu â chi am y rhesymau canlynol:

- cael rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth y gofynnwyd amdani yn ystod y gweithdrefnau cyn gwrاندawiad
- eich galw i ymddangos fel tyst ar ein cyfer os byddwn wedi cael datganiad tyst gennych chi.

Os cewch eich galw fel tyst ar ein cyfer, bydd y swyddog o'r tîm addasrwydd i ymarfer sy'n gyfrifol am yr achos neu'r cyfreithiwr sy'n cyflwyno'r achos ar ein rhan yn cysylltu â chi.

Tua phedair i chwe wythnos cyn y gwrاندawiad, cewch wybod y dyddiad, yr amser a'r lleoliad.

Os bydd y gwrاندawiad i'w chynnal yn gyhoeddus ac ni chewch eich galw fel tyst, byddwch yn gallu bod yn bresennol i arsylwi. Os cewch eich galw fel tyst, ni fyddwch yn gallu bod yn bresennol hyd nes byddwch wedi rhoi'ch dystiolaeth.

Gall panel addasrwydd i ymarfer wneud y penderfyniadau canlynol:

- Pan fo panel yn penderfynu nad oes amhariad ar addasrwydd yr uniolyn cofrestredig i ymarfer:
 - peidio â chymryd unrhyw gamau pellach a chau'r achos
 - rhoi cyngor.
- Pan fo panel yn penderfynu bod amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer:
 - peidio â chymryd unrhyw gamau pellach a chau'r achos
 - cyhoeddi rhybudd
 - bydd yn diddymu'r person cofrestredig trwy gytundeb
 - gwneud ymgymeriad
 - gwneud gorchymyn cofrestru amodol
 - gwneud gorchymyn atal, yn atal yr unigolyn cofrestredig rhag gweithio mewn rôl gofrestredig am gyfnod penodedig
 - dileu'r unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr. Ni fydd yr unigolyn yn gallu gweithio mewn rôl gofrestredig yng Nghymru.



Cewch wybod am benderfyniad y panel. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad ar ein gwefan ac yn diweddarau'r Gofrestr i ddangos y penderfyniad.

Pa mor hir bydd y broses yn cymryd?

O'r atgyfeiriadau atom ni, nifer bach yn unig (tua 12 y cant) sy'n cael eu hatgyfeirio at wrandawriad addasrwydd i ymarfer terfynol. Caiff mwyafrif yr atgyfeiriadau eu cau yng nghynadledau achos swyddogion neu gyda chosbau gan swyddogion.

Y graddfeydd amser cyfartalog ar gyfer cwblhau achosion yw:

- **rhwng cael yr honiad a chau'r achos yn ystod y cam ymchwilio:** hyd at dri mis, ond bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos
- **rhwng cael yr honiad a chau'r achos mewn gwrandawriad addasrwydd i ymarfer:** tua naw mis, eto yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos. Bydd hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i drefnu gwrandawriad, sy'n gallu cymryd hyd at dri mis.

Gall achosion gymryd mwy o amser na hyn:

- os byddwn yn aros am dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth gennych chi
- os byddwn yn aros i ymchwiliad gan yr heddlu neu achos llys ddod i ben
- os bydd yr unigolyn cofrestredig wedi cofrestru gyda chorff rheoleiddio arall sydd yntau'n cymryd camau yn ei erbyn, oherwydd gallai fod angen i ni aros i'r corff hwnnw gwblhau ei achos cyn y gallwn ni gwblhau ein hachos ni.

Gweithio gyda a darparu gwybodaeth/ tystiolaeth i ni

Gwyddom fod gweithio gyda ni yn ystod ein prosesau ymchwilio a'n gwrandawriadau yn gallu cymryd amser. Os bydd corff arall, fel yr heddlu, wedi bod yn ymchwilio i'r mater hefyd, mae'n bosibl y byddwch wedi gorfod darparu'r un wybodaeth ddwywaith.

Fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd statudol i ymgymryd â'n gweithdrefnau ein hunain ac rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth roi i ni'r wybodaeth y mae arnom ei hangen gennych o fewn unrhyw derfynau amser a roesom. Hefyd, gwyddom am yr effaith y gall ein prosesau ei chael ar yr unigolyn cofrestredig a'r angen i ddelio ag achosion yn amserol.

Er mwyn ein helpu ni i gael y wybodaeth a'r dystiolaeth y mae arnom eu hangen fel rhan o'n prosesau ymchwilio a'n gwrandawriadau, mae gennym bŵer o dan Ddeddf



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i fynnu bod unigolyn yn darparu'r wybodaeth honno i ni¹.

Os bydd yr unigolyn hwnnw'n methu darparu'r wybodaeth neu'r dystiolaeth y mae arnom ei hangen o fewn cyfnod penodedig, byddwn yn gallu gwneud cais am orchymyn llys i gael y wybodaeth. Hefyd, gallwn wneud cais i Dribiwnlys Safonau Gofal i orfodi unigolyn i ymddangos gerbron un o'n paneli.

Rhoi gwybodaeth i chi

Bydd y swyddog o'r tîm addasrwydd i ymarfer sy'n rheoli'r achos yn rhoi gwybodaeth i chi am hynt yr achos yn rheolaidd yn ystod y broses. Hefyd, gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg i gael gwybod y diweddaraf.

Cysylltu â ni

Y tîm addasrwydd i ymarfer

I atgyfeirio gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig atom ni ac i gael gwybodaeth am ymchwiliad i achos, cysylltwch â'r canlynol:

Y tîm addasrwydd i ymarfer: 029 2078 0545 neu aiy@gofalcymdeithasol.cymru

Y tîm gwrandawiadau

I gael gwybodaeth am wrandawriad ar achos, cysylltwch â'r canlynol:

Y tîm gwrandawiadau: 029 2078 0505 neu
gwrandawiadau@gofalcymdeithasol.cymru

Cyfeiriad: Gofal Cymdeithasol Cymru, South Gate House, Wood Street,
Caerdydd CF10 1EW

Gwefan: gofalcymdeithasol.cymru